

Telerau ac Amodau Cwmni Dawns Cenedlaethol Cymru ar gyfer Dosbarthiadau Nos

Cyffredinol

Mae Cwmni Dawns Cenedlaethol Cymru (CDCCymru o hyn allan) yn cadw'r hawl i ychwanegu at y Telerau ac Amodau hyn, eu newid neu eu dileu.

Nid yw CDCCymru yn gyfrifol am golled na difrod i unrhyw eiddo personol a adewir yn yr adeilad.

Nid yw CDCCymru yn ysgwyddo cyfrifoldeb am unrhyw anaf na salwch a geir yn ystod dosbarthiadau nos. Drwy brynu dosbarth nos gyda CDCCymru, rydych yn cytuno eich bod yn ddigon ffit ac iach i gymryd rhan yn eich gweithgaredd dewisol, a chi fydd yn gyfrifol am roi gwybod i'ch athro/athrawes am unrhyw salwch neu anaf y dylai fod yn ymwybodol ohono.

Bydd CDCCymru yn sicrhau bod aelod staff sydd wedi cael hyfforddiant cymorth cyntaf ar gael yn ystod amseroedd y dosbarthiadau.

Mae'n rhaid i bob cyfranogwr gymryd rhan mewn ymarferion cynhesu ac oeri ym mhob dosbarth.

Ni chaniateir hwyrddyfodiaid. Mae CDCCymru yn cynghori y dylai pawb sy'n cymryd rhan gyrraedd 10 munud cyn y dosbarth.

Mae pob dosbarth yn addas ar gyfer rhai dros 18 mlwydd oed yn unig.

Drwy gofrestru am ddosbarthiadau nos, rydych yn cytuno i gael eich ychwanegu at restr bostio gyffredinol CDCCymru. Mae CDCCymru yn cydymffurfio â'r Ddeddf Diogelu Data ac ni fydd yn rhannu eich gwybodaeth ag unrhyw drydydd parti.

Taliadau

Dylid gwneud pob taliad am ddosbarthiadau, gweithdai ac fel arall yn llawn i CDCCymru cyn i'r digwyddiad gael ei gynnal.

Ni ellir ad-dalu taliadau, heblaw mewn amgylchiadau eithriadol.

Os bydd rhaid i CDCCymru symud neu ganslo dosbarth, bydd pob cyfranogwr yn cael ad-daliad.

Os bydd rhaid colli dosbarth, gall CDCCymru gael nodyn credyd os rhoddir o leiaf 48 awr o rybudd drwy e-bost i info@ndcwales.co.uk

Ffotograffiaeth a Ffilmio

Mae CDCCymru yn cadw'r hawl i dynnu lluniau a ffilmio gweithgareddau yn yr adeilad a defnyddio'r delweddau ar y cyfryngau cymdeithasol ac mewn deunydd marchnata. Drwy gytuno i'r telerau ac amodau hyn, rydych yn rhoi caniatâd i dynnu lluniau ohonoch yn ystod eich amser yn yr adeilad. Gofynnwn ichi gysylltu ag aelod o'r staff os nad ydych yn dymuno cael eich cynnwys.

Caniateir i ymwelwyr â'r Tŷ Dawns dynnu lluniau tra eu bod yno. Gofynnwn ichi gysylltu ag aelod o'r staff os ydych yn dymuno cael eglurhad ar unrhyw beth sy'n peri dryswch. Dylid cydnabod unrhyw

ddelwedd gan y cwmni drwy nodi 'Cwmni Dawns Cenedlaethol Cymru'.